

Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru 2017-2020: Cyngor Dinas Casnewydd

Adroddiad Asesu Blynyddol 2019/20

Paratowyd yr adroddiad hwn yn seiliedig ar wybodaeth a ddarparwyd yn y datganiad blynyddol, yr astudiaethau achos a'r adroddiad naratif a gyflwynwyd gan wasanaeth Casnewydd i Is-adran Diwylliant a Chwaraeon Llywodraeth Cymru.

1 Crynodeb gweithredol

Bodlonodd Casnewydd bob un o'r 12 hawl graidd yn llawn.

O'r 9 dangosydd ansawdd sy'n cynnwys targedau, cyflawnodd Casnewydd 6 yn llawn, cyflawnodd 1 yn rhannol, a methodd â chyflawni 2.

At ei gilydd mae gwasanaethau llyfrgell yng Nghasnewydd wedi cael eu cynnal drwy gydol y fframwaith. Fodd bynnag, mae'r gostyngiad yn nifer y staff proffesiynol yn destun pryder, mewn gwasanaeth sy'n cofnodi'r lefelau cyffredinol isaf o staff yng Nghymru. Mae'n bosibl y bydd y ffocws ar fodel y ganolfan gymdogaeth yn cael effaith gadarnhaol ar oriau agor, a bydd ymgysylltu â'r gymuned a datblygiadau yn y maes hwn yn allweddol wrth ddarparu gwasanaethau yn y dyfodol. Mae'r astudiaethau achos a roddwyd yn dangos yr effaith gadarnhaol y mae llyfrgelloedd Casnewydd yn ei chael ar aelodau o'r gymuned leol, gan helpu i leihau anghydraddoldebau iechyd, cymdeithasol ac economaidd. Byddai gwella staffio'n helpu i gynyddu'r effaith hon.

- Mae pob llyfrgell sefydlog yn parhau i ddarparu ystod lawn o gefnogaeth ar gyfer datblygiad unigol, a chefnogaeth dda ar gyfer iechyd a llesiant.
- Gwelwyd gostyngiad yn nifer y benthycwyr gweithredol ac yn nifer yr aelodau o lyfrgell, sef 31% a 29% yn y drefn honno er 2017/18.
- Mae lawrlwythiadau electronig wedi gweld cynnydd o 39% er 2017/18, sy'n adlewyrchu newid yn arferion cwsmeriaid ledled Cymru ac effaith y pandemig.
- Mae gwariant ar adnoddau plant wedi'i gynnal, ac mae'n uwch na'r canolrif yng Nghymru, ac o bosibl yn ffactor sydd wedi cyfrannu at y cynnydd yn nifer y benthyciadau plant.
- Mae nifer cyffredinol y staff wedi gostwng ychydig yn 2019/20, ar ôl colli un swydd broffesiynol o'r strwythur. Nid yw'r targed cyffredinol ar gyfer staff fesul pen o'r boblogaeth (DA 13) yn cael ei gyflawni, ac mae nifer y staff fesul pen o'r boblogaeth yn parhau'n is nag yn unrhyw awdurdod arall yng Nghymru.

2 Perfformiad yn erbyn y safonau

Mae'r fframwaith safonau yn cynnwys hawliau craidd, dangosyddion ansawdd sydd â thargedau, dangosyddion ansawdd sydd â meincnodau a mesurau effaith. Mae Adran 2 yn crynhoi'r cyflawniadau yn erbyn y meysydd hyn. Ceir asesiad naratif o berfformiad yr awdurdod yn Adran 3. Cyfyngwyd ar yr asesiad i ryw raddau gan y ffaith y gofynnwyd i awdurdodau lleol wneud sylw ar unrhyw newidiadau i ddatganiad y flwyddyn flaenorol yn unig, ynghyd â sylwadau ychwanegol ar hawliau craidd a gyflawnwyd yn rhannol/na chawsant eu cyflawni.

2.1 Hawliau craidd

Mae Casnewydd yn parhau i gyflawni pob un o'r 12 Hawl Graidd yn llawn. Ni fu unrhyw newidiadau arwyddocaol er 2018/19. Mae'r gwasanaeth yn parhau i ddefnyddio proffiliau cymunedol ar gyfer pob un o'i lyfrgelloedd fel sail i waith cynllunio.

2.2 Dangosyddion ansawdd sydd â thargedau

Mae 16 o ddangosyddion ansawdd (DA) ac mae gan 10 ohonynt dargedau yn rhan ohonynt. Oherwydd effaith Covid-19, cafodd 3 dangosydd ansawdd eu dileu ar gyfer blwyddyn adrodd 2019/20, sef pump, chwech a phymtheg, ac o'r rhain, roedd rhif chwech yn cynnwys targed. O'r **naw** targed sydd ar ôl ar gyfer 2019/20, mae Casnewydd yn cyflawni 6 ohonynt yn llawn, yn cyflawni 1 ohonynt yn rhannol, ac yn methu â chyflawni 2 ohonynt.

Dangosydd Ansawdd	Cyflawni?	
DA 3 – Cefnogaeth ar gyfer datblygiad unigol		Cyflawni'n llawn
a) Cymorth TGCh	√	
b) Hyfforddiant sgiliau a llythrennedd gwybodaeth	√	
c) Cymorth e-lywodraeth	√	
d) Datblygu darllenwyr	√	
DA 4 (a) Cefnogaeth ar gyfer iechyd a lles		Cyflawni'n llawn
i) Cynllun Presgripsiwn Llyfrau	√	
ii) Cynllun Llyfrau Llesol	√	
iii) Casgliad penodol i iechyd a lles	√	
iv) Gwybodaeth am ymddygiadau a ffyrdd o fyw	√	
v) Arwyddbyst at wasanaethau iechyd a lles	√	
DA 7 Lleoliad mannau gwasanaeth	√	Cyflawni'n llawn
DA 9 – Deunydd darllen cyfoes a phriodol		Heb ei gyflawni
Derbyniadau fesul pen y boblogaeth	x	
<u>neu</u> Wariant ar ddeunyddiau fesul pen	x	
DA 10 – Adnoddau Cymraeg		Cyflawni'n llawn
% y gyllideb deunyddiau wedi'i wario ar y Gymraeg	√	
<u>neu</u> Wariant ar y Gymraeg fesul pen	√	
DA 11 – Mynediad ar-lein:		Cyflawni'n llawn
a) i) Mynediad cyhoeddus i'r Rhyngwrwyd	√	
ii) Darpariaeth Wi-Fi	√	
DA 12 – Cyflenwi ceisiadau		Cyflawni'n llawn
a) % y ceisiadau wedi'u cyflenwi o fewn 7 diwrnod	√	
b) % y ceisiadau wedi'u cyflenwi o fewn 15 diwrnod	√	

Dangosydd Ansawdd	Cyflawni?	
DA 13 – Lefelau staffio a chymwysterau:		Cyflawni'n rhannol
i) Staff fesul pen y boblogaeth	x	
ii) Staff cymwysedig fesul pen y boblogaeth	x	
iii) Cymwysterau/hyfforddiant pennaeth y gwasanaeth	√	
DA 16 – Orlau agor fesul pen y boblogaeth	x	Heb ei gyflawni

Mae Casnewydd wedi cynnal ei berfformiad yn nhrydedd flwyddyn y chweched fframwaith, ac ni fu unrhyw newidiadau er 2018/19.

2.3 Mesur effaith

Mae'r fframwaith yn cynnwys tri dangosydd sydd wedi'u hanelu at asesu'r effaith y mae defnyddio llyfrgelloedd yn ei chael ar fywydau pobl. Nid yw'r dangosyddion hyn yn cynnwys targedau, a dim ond unwaith dros gyfnod tair blynedd y fframwaith y mae'n ofynnol i awdurdodau gynnal arolygon defnyddwyr ar gyfer DA 1. Er hyn, mae Covid-19 wedi effeithio ar y mesur hwn a chafodd rhai o gynlluniau'r awdurdod i gynnal arolwg yn chwarter cyntaf 2020 eu canslo. Felly, mae'r ffigurau cryno (isaf, canolrif ac uchaf) yn seiliedig ar yr awdurdodau hynny a nododd eu bod wedi cwblhau eu harolwg defnyddwyr yn ystod fframwaith 6. Mae'r drefn yn adlewyrchu nifer yr ymatebwyr, gydag 1 yn nodi'r awdurdod â'r sgôr uchaf.

Cynhaliodd Casnewydd ei arolwg oedolion a'i arolwg plant ym mis Mawrth 2018. Cafodd arolwg a oedd i fod i gael ei gynnal ym mis Mawrth 2020 ei ganslo oherwydd Covid-19. Fel arfer, cynhelir arolygon defnyddwyr yng Nghasnewydd bob dwy flynedd, ond at ddibenion asesu, mae unwaith yn ystod y fframwaith tair blynedd yn ddigon.

Dangosydd perfformiad		Safle	Isaf	Canolrif	Uchaf
DA 1 – Gwneud gwahaniaeth					
b) % y plant sy'n meddwl bod y llyfrgell yn eu helpu i ddysgu a chael gwybod pethau:	92%	10/19	60%	90%	97%
e) % yr oedolion sy'n credu bod y llyfrgell wedi gwneud gwahaniaeth i'w bywydau:	85%	14/19	41%	85%	99%

Gofynnir i awdurdodau hefyd gyflwyno hyd at bedair astudiaeth achos yn disgrifio'r effaith y mae'r gwasanaeth llyfrgell wedi'i chael ar unigolyn neu grŵp o unigolion yn ystod y flwyddyn. Darparodd Casnewydd dair astudiaeth achos o'r fath:

- Sesiynau Ystyriol o Awtistiaeth – Cyflwyno sesiynau ystyriol o awtistiaeth yn y llyfrgell. Mae hwn yn wasanaeth sy'n cefnogi plant awtistig. Dangosir pwysigrwydd y sesiynau hyn i un plentyn a'i deulu. Mae'r gweithgareddau'n hwb i hyder y plentyn ac yn gyflwyniad ysgafn i amgylchedd y llyfrgell.
- Hyb Cymdogaeth y Dwyrain – yr hyb cymunedol cyntaf yng Nghasnewydd. Pwysigrwydd yr hyb i deulu ifanc sy'n newydd i'r ardal, cefnogi sgiliau llythrennedd a gwella hyder. Mae'r llyfrgell hefyd wedi darparu amgylchedd lle gall y teulu wella eu datblygiad cymdeithasol a phersonol.

- Allgáu digidol a chymdeithasol – prosiect i fynd i'r afael ag allgáu digidol a chymdeithasol. Mae dyfeisiau digidol wedi'u benthyca i gwsmeriaid sy'n gaeth i'w tai yng Nghasnewydd fel rhan o'r prosiect hwn. Cyflwynodd y staff sesiwn blasu, ac erbyn hyn mae'r aelodau hyn o'r llyfrgell yn gallu cael mynediad at ystod o adnoddau llyfrgell digidol, sy'n cael effaith gadarnhaol ar eu llesiant a'u hiechyd meddwl.

2.4 Dangosyddion perfformiad a meincnodau ansawdd

Er bod cyfyngiadau Covid-19 yn parhau i achosi her i bob gwasanaeth llyfrgell yng Nghymru, mae gwytnwch staff, eu proffesiynoldeb a'u gofal dros y gymuned y maent yn ei gwasanaethu wedi bod yn eithriadol. Er bod gwasanaethau digidol wedi cynyddu, gwyddom o dystiolaeth a ddarparwyd fod cwsmeriaid yn colli eu gwasanaethau llyfrgell. Maent yn colli'r staff, pori drwy'r silffoedd, y ddarpariaeth TG, y mannau cymunedol a'r grwpiau, fel y grwpiau gwau a chlonc. Ni ellir gorbwysleisio pwysigrwydd y llyfrgell fel lle i fynd iddo, ac effaith rhyngweithio â staff llyfrgell ar lesiant y cwsmeriaid.

Nid oes gan y dangosyddion sy'n weddill dargedau, ond maent yn galluogi gwasanaethau i fonitro a meincnodi eu perfformiad dros gyfnod, gan gymharu ag awdurdodau eraill. Mae'r tabl canlynol yn crynhoi sefyllfa Casnewydd ar gyfer 2019/20. Nodir safle allan o 22, gydag 1 yn dynodi'r awdurdod â'r sgôr uchaf a 22 yn dynodi'r awdurdod â'r sgôr isaf, oni nodir yn wahanol. Nid oedd data perthnasol ar gael i rai awdurdodau, fel y gwelir yn y dangosyddion lle y darparodd llai na 22 o awdurdodau ddata. Nodwyd ffigurau o ail flwyddyn y chweched fframwaith neu o arolygon blaenorol perthnasol hefyd er mwyn gallu cymharu. Caiff dangosyddion 'fesul pen' o'r boblogaeth eu cyfrifo fesul 1,000 o'r boblogaeth oni nodir yn wahanol.

Dangosydd perfformiad		Safle	Isaf	Canolrif	Uchaf	2018/19
DA 1 – Gwneud gwahaniaeth						[Fframwaith 6]
a) % yr oedolion sy'n credu bod defnyddio'r llyfrgell wedi'u helpu i ddatblygu sgiliau newydd	66%	=13/18	25%	75%	94%	66%
c) iechyd a lles	49%	17/19	38%	69%	96%	49%
d) lle diogel a chroesawgar	96%	=12/19	90%	96%	100%	96%
DA 2 – Bodlonrwydd cwsmeriaid						[Fframwaith 6]
a) dewis 'da iawn' neu 'da' o lyfrau	91%	=7/18	78%	91%	99%	91%
b) gofal cwsmeriaid 'da iawn' neu 'da'	97%	=13/18	88%	97%	100%	97%
c) cyfleusterau TG 'da iawn' neu 'da'	79%	12/17	66%	85%	99%	79%
d) 'da iawn' neu 'da' yn gyffredinol;	95%	14/18	85%	96%	100%	95%
e) sgôr allan o ddeg gan ddefnyddwyr 16 oed ac iau	9.2	=13/19	8.0	9.1	9.5	9.2
DA 8 – Defnyddio'r llyfrgell ¹						
a) ymweliadau fesul pen y boblogaeth	2,429	22/22	2429	3987	6874	2,596
b) rhith-ymweliadau fesul pen	744	12/22	239	909	2131	672
c) benthycwyr gweithredol fesul pen	85	21/22	78	145	244	119
DA 10 – Benthyciadau Cymraeg fesul pen ²						
	351	20/22	311	680	1468	337
DA 11 – Mynediad ar-lein						
b) cyfrifiaduron fesul 10,000	4	22/22	4	9	14	5
c) % yr amser sydd ar gael i'w defnyddio gan y cyhoedd	30%	=8/22	14%	30%	64%	29%
DA 14 – Gwariant gweithredol						
a) cyfanswm gwariant fesul pen	£7,260	22/22	£7,260	12,448	£23,333	£7,181
b) % ar staff	57%	15/22	48%	61%	76%	58%
% ar adnoddau gwybodaeth	19%	=3/22	5%	13%	22%	19%
% ar offer ac adeiladau	17%	3/22	0%	8%	28%	16%
% ar gostau gweithredol eraill	6%	19/22	1%	18%	35%	7%
c) gwariant cyfalaf fesul pen	£0	=22/22	£0	£1,567	£13,027	£1,646
DA 16 – Oriau agor ³						
(iii) a) % oriau cau mannau gwasanaeth sefydlog heb gynllunio gwneud hynny	0.00%	=1/22	0.00%	0.23%	3.96%	0.05%
b) % arosfannau'r llyfrgell deithiol / danfon i'r cartref a fethwyd	0.00%	=1/22	0.00%	1.07%	5.41%	dd/b

¹ rhoddir seren wrth ymyl ffigurau ar gyfer gwasanaethau sydd wedi'u cyd-leoli; mae perfformiad y gwasanaethau hyn yn debygol o adlewyrchu'r ffaith bod mwy o bobl yn ymweld â nhw, ac felly ni ellir eu cymharu'n uniongyrchol â darpariaeth llyfrgell ar wahân; ² fesul 1,000 y boblogaeth breswyl sy'n siarad Cymraeg; ³ Mae'r safleoedd yma wedi'u troi i'r gwrthwyneb, felly 1 yw'r awdurdod â'r sgôr isaf (yr awdurdod sy'n perfformio orau).

3 Dadansoddi perfformiad

Gellir rhannu'r hawliau craidd a'r dangosyddion ansawdd yn bedwar maes allweddol. Mae'r adran hon o'r adroddiad yn amlinellu perfformiad o dan y meysydd hyn, ac yn cymharu'r perfformiad hwn â blwyddyn gyntaf ac ail flwyddyn y chweched fframwaith (2017/18 a 2018/19).

3.1 Diwallu anghenion cwsmeriaid (DA 1-5)ⁱ

Cwblhaodd Casnewydd ei harolygon oedolion a defnyddwyr plant ym mis Mawrth 2018. Cafodd arolwg a gynlluniwyd ar gyfer mis Mawrth 2020 ei ganslo oherwydd Covid-19. Fel arfer, cynhelir arolygon defnyddwyr bob dwy flynedd yng Nghasnewydd. Mae pob llyfrgell

statig yn parhau i ddarparu ystod lawn o gymorth ar gyfer datblygiad unigol, a chefnogaeth dda i iechyd a lles. Bu ychydig o newid yn 2019/20 ac ni chynigiwyd y sesiynau a gynhaliwyd gan MIND yn 2018/19 yn llyfrgell Casnewydd ym mlwyddyn adrodd 2019/20. Fodd bynnag, mae'r cynnig Darllen yn Dda wedi'i gynnal.

3.2 Mynediad a defnydd (DA 6-8)ⁱⁱ

Mae cau pob llyfrgell ar 20 Mawrth 2020 oherwydd Covid-19 hefyd wedi effeithio ar y defnydd o lyfrgelloedd. Mae Casnewydd yn parhau i gyflawni'r targed ar gyfer mynediad hawdd at fannau gwasanaeth. Fel pob gwasanaeth yng Nghymru, mae Covid-19 wedi effeithio ar y ffigurau ymwelwyr, ac mae gostyngiad bach yn y maes hwn. Er hyn, mae ymweliadau corfforol yn parhau'n is fesul pen o'r boblogaeth nag yn unman arall yng Nghymru. Gwelwyd gostyngiad hefyd yn nifer y benthycwyr gweithredol ac aelodau o lyfrgelloedd er 2017/18, sef 31% a 29% yn y drefn honno. Er bod nifer y benthyciadau llyfrau oedolion wedi gostwng, gwelwyd cynnydd yn nifer y benthyciadau llyfrau plant a'r lawrlwythiadau electronig. Mae lawrlwythiadau electronig wedi gweld cynnydd o 39% er 2017/18, sy'n adlewyrchu newid yn arferion cwsmeriaid ledled Cymru ac effaith y pandemig.

3.3 Cyfleusterau a gwasanaethau (DA 9-12)ⁱⁱⁱ

Mae gwariant ar ddeunyddiau wedi cynyddu ychydig yn 2018/19 ac mae'n uwch na'r canolrif yng Nghymru. Fodd bynnag, oherwydd amrywiadau yn y prisiau mae caffael eitemau ffisegol mewn gwirionedd wedi gostwng ychydig ac mae'n parhau'n is na'r lefelau targed. Mae DA 9 (caffael) yn parhau heb ei gyflawni. Mae Casnewydd yn un o ddau ar bymtheg o awdurdodau nad ydynt wedi cyflawni'r targed caffael (DA 9) yn 2019/20. Mae gwariant ar adnoddau plant wedi'i gynnal ac mae'n uwch na'r canolrif yng Nghymru, ac o bosibl yn ffactor sydd wedi cyfrannu at y cynnydd yn nifer y benthyciadau plant. Mae buddsoddiad mewn adnoddau Cymraeg wedi'i gynnal, ac mae'r targed ar gyfer DA 10 (adnoddau Cymraeg) wedi parhau i gael ei gyflawni. Mae perfformiad mewn cysylltiad â benthyciadau Cymraeg yn is na'r canolrif yng Nghymru. Mae'r gofynion ar gyfer cyflenwi ceisiadau (DA 12) wedi parhau i gael eu cyflawni ac mae'r ddarpariaeth cyfrifiaduron personol wedi gostwng ychydig. Mae'r defnydd presennol (30%) yr un fath at ei gilydd ag yr oedd yn 2017/18.

3.4 Arbenigedd a chapasiti (DA 13-16)^{iv}

Mae nifer cyffredinol y staff wedi gostwng ychydig yn 2019/20, ar ôl colli un swydd broffesiynol o'r strwythur. Nid yw'r targed cyffredinol ar gyfer staff fesul pen o'r boblogaeth (DA 13) yn cael ei gyflawni, ac mae nifer y staff fesul pen o'r boblogaeth yn parhau'n is nag yn unrhyw awdurdod arall yng Nghymru. Mae cyfanswm y staff proffesiynol fesul 10,000 o'r boblogaeth yn parhau ychydig yn uwch na'r canolrif yng Nghymru ac mae arweinyddiaeth gymwysedig yn bodoli.

Gwelwyd cynnydd mewn gwariant refeniw yn 2019/20 ac mae hyn wedi gwella 3% er 2017/18. Fel yn nwy flynedd gyntaf y fframwaith mae'r buddsoddiad cyfartalog mewn gwasanaethau llyfrgell fesul pen o'r boblogaeth yn parhau yn y chwarter isaf yng Nghymru. Gwelwyd cynnydd mewn oriau agor o ganlyniad i agor hyb y Dwyrain ym mis Ionawr 2020.

Mae DA 16 (oriau agor) yn parhau heb ei gyflawni ac mae perfformiad yn sylweddol is na'r canolrif yng Nghymru.

4 Cyd-destun strategol

Fel rhan o'r datganiad gofynnwyd i awdurdodau ddweud sut y mae'r gwasanaeth llyfrgell yn cyfrannu at flaenoriaethau ehangach Llywodraeth Cymru a'i nodau strategol. Mae Casnewydd yn parhau i adrodd ar y cysondeb rhwng ei Strategaeth Llyfrgell 2017-2020 a blaenoriaethau ehangach Llywodraeth Cymru. Rhoddir blaenoriaeth o hyd i ddarllen a llythrennedd, ac mae Casnewydd yn llwyddo i gynnig ystod o ddigwyddiadau a gweithgareddau i blant. Mae'r naratif hefyd yn dangos sut y mae'r gwasanaeth yn cyfrannu at feysydd strategol cynhwysiant digidol ac iechyd a llesiant, ynghyd ag ymrwymiad parhaus i gynnig ystod o ddosbarthiadau a gweithgareddau i helpu i ddatblygu sgiliau digidol ei aelodau.

5 Cyfeiriad i'r dyfodol

Fel pob gwasanaeth yng Nghymru, mae Covid-19 wedi effeithio ar y ffordd y mae'r aelodau'n defnyddio gwasanaeth llyfrgell ledled Cymru. Mae hyn wedi effeithio'n bennaf ar y defnydd o wasanaethau ar-lein a bydd Casnewydd, fel pob gwasanaeth yng Nghymru, yn ystyried sut y mae angen iddo addasu er mwyn bodloni'r newid yn nisgwyliaid cwsmeriaid. Caiff strategaeth llyfrgell newydd ei datblygu yn 2021. Fel y nodwyd yn 2018/19, bydd pwyslais parhaus ar ddatblygu'r model hyb cymdogaeth. Agorodd yr hyb cyntaf yn Ringland ym mis Ionawr 2020 ac mae tystiolaeth anecdotaidd yn awgrymu bod y gwasanaeth llyfrgell wedi chwarae rhan allweddol wrth ddenu trigolion i'r adeilad i gael eu cyfeirio at y gwasanaethau cefnogaeth eraill sydd ar gael. Mae gan y model newydd botensial i gynnig cyfleoedd amrywiol i'r gwasanaeth llyfrgell.

6 Casgliad

At ei gilydd mae gwasanaethau llyfrgell yng Nghasnewydd wedi cael eu cynnal drwy gydol y fframwaith. Fodd bynnag, mae'r gostyngiad yn nifer y staff proffesiynol yn destun pryder, mewn gwasanaeth sy'n cofnodi'r lefelau cyffredinol isaf o staff yng Nghymru. Mae'n bosibl y bydd y ffocws ar fodel y ganolfan gymdogaeth yn cael effaith gadarnhaol ar oriau agor, a bydd ymgysylltu â'r gymuned a datblygiadau yn y maes hwn yn allweddol wrth ddarparu gwasanaethau yn y dyfodol. Mae'r astudiaethau achos a roddwyd yn dangos yr effaith gadarnhaol y mae llyfrgelloedd Casnewydd yn ei chael ar aelodau o'r gymuned leol; gan helpu i leihau anghydraddoldebau iechyd, cymdeithasol ac economaidd. Byddai gwella staffio'n helpu i gynyddu'r effaith hon.

ⁱ Oherwydd Covid-19, dim ond nodi unrhyw newid yn eu darpariaeth ers y flwyddyn adrodd ddiwethaf y gofynnwyd i awdurdodau lleol ei wneud ar gyfer DA 3 a 4.

ⁱⁱ Oherwydd Covid-19, cafodd DA 5 a 6 eu dileu ar gyfer blwyddyn adrodd 2019/20.

ⁱⁱⁱ Cafodd e-adnoddau a brynwyd drwy danysgrifiadau a ariennir yn ganolog eu cynnwys yn y ffigurau caffaeliadau ar gyfer DA 9 yn 2019/20. Mae pob awdurdod wedi ychwanegu 201 at gyfanswm ei gaffaeliadau o danysgrifiadau a ariennir yn ganolog. Mae Datganiadau Ystadegau CIPFA yn parhau i gynnwys ffigurau ar gyfer adnoddau a gaffaelir yn ganolog.

^{iv} Oherwydd Covid-19, cafodd DA 15 ei ddileu ar gyfer blwyddyn adrodd 2019/20, ynghyd â hyfforddiant ac oriau gwirfoddoli.